*This document is available in English*

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Pwyllgor Archwilio** |
| Rhif adroddiad | **AC/2017/07/07** |
| Dyddiad | **10 Gorffennaf 2017** |
| Swyddog Arweiniol | **Dawn Docx, DBST** |
| Swyddog Cyswllt | **Julie Brown** |
| Pwnc | **Datganiad Llywodraethu Blynyddol** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Dod â Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod i'r Pwyllgor Archwilio er mwyn i'r aelodau i roi sylwadau arno, cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Awdurdod.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn ddogfen statudol sy'n esbonio'r prosesau a'r gweithdrefnau sydd wedi cael e sefydlu er mwyn galluogi Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol. Pwrpas y Datganiad yw esbonio sut mae GTAGC wedi cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol.

**ARGYMHELLIAD**

3 Gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo cynnwys Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2016/17.

**CEFNDIR**

4 O 2010/11 ymlaen, bu'n ofynnol i bob Awdurdod Llywodraeth Leol lunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'w gyhoeddi fel rhan o'r Cyfrifon Statudol. Mae hyn yn disodli'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn y Datganiad o Gyfrifon.

**GWYBODAETH**

5 Diben y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw adrodd yn gyhoeddus bob blwyddyn ynghylch y graddau y mae Awdurdod yn cydymffurfio â'i God Llywodraethu Corfforaethol ei hun. Mae'n cynnwys esboniad ynglŷn â'r modd y mae'r Awdurdod wedi monitro effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu yn y flwyddyn honno, ynghyd ag unrhyw newidiadau sydd yn yr arfaeth yn y cyfnod sydd i ddod.

6 Caiff Datganiad Llywodraethu Blynyddol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ei lunio gan y Pennaeth Cyllid dan gyfarwyddyd y Dirprwy Brif Swyddog Tân a'r Clerc. Yn dilyn argymhellion yr archwilwyr, mae'r datganiad yn cymryd ystyriaeth o'r gwelliannau a nodwyd gan reolwyr adrannau eraill o fewn y Gwasanaeth.

7 Gwiriodd y Pennaeth Cyllid gydymffurfiaeth â Chod Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod, a gymeradwywyd yn 2011, a rhoddir crynodeb o'r canfyddiadau yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol sydd ynghlwm.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Wedi cael eu hystyried a'u hymgorffori yn y cynllun. |
| Cyllideb | Dim pwysau ychwanegol o ran costau, mae'r gyllideb a osodwyd ar gyfer 17/18 yn ymgorffori'r gofynion hyfforddi; mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn sicrhau bod ystyriaethau gwerth am arian yn digwydd ynglŷn â phrosiectau sy'n cael eu cyflawni yn y Gwasanaeth. |
| Cyfreithiol | Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r holl gyrff perthnasol lunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol eraill i'r cynnwys. |
| Staffio | Amodau gwaith gwell i'r staff |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim goblygiadau |
| Risgiau | Tynnwyd sylw at y risgiau, a sefydlwyd mesurau yn cynllun. |

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2016/2017

## 1 Cyflwyniad

1.1 Cafodd y Datganiad hwn ei lunio yn unol â chanllawiau a gynhyrchwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE), sef y fframwaith 'Delivering Good Governance in Local Governance'.

## 2 Cwmpas Cyfrifoldeb

2.1 Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith ac i'r safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a bod cyfrif cywir amdano, a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Hefyd, mae dyletswydd ar yr Awdurdod o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y modd y mae ei swyddogaethau'n cael eu cyflawni, gan dalu sylw i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd

2.2 Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae'r Awdurdod yn gyfrifol am roi trefniadau cywir yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei faterion er mwyn ei gwneud yn haws i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol, ac sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

2.3 Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo a mabwysiadu cod llywodraethau corfforaethol sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE, sef 'Delivering Good Governance in Local Government'. Mae'r datganiad hwn yn esbonio sut y mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r cod, a hefyd wedi ateb gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2011.

## 3 Diben y Fframwaith Llywodraethu

3.1 Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n cyfarwyddo a rheoli'r Awdurdod, a'r gweithgareddau ar gyfer bod yn atebol i'r gymuned, trafod â hi, a'i harwain. Mae'n galluogi'r Awdurdod i fonitro'r modd y mae'n cyflawni ei amcanion strategol ac ystyried p'un a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol a chost-effeithiol a gwelliannau parhaus.

3.2 Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan bwysig o'r fframwaith hwnnw, a'i nod yw rheoli risg i fod ar lefel resymol. Ni all gael gwared ar bob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion ac felly ni all ond darparu sicrwydd rhesymol, heb fod yn absoliwt, o effeithiolrwydd. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd â'r nod o adnabod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Gwasanaeth, gwerthuso'r tebygolrwydd o wireddu'r risgiau hynny a'r effaith petaent yn cael eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

3.3 Rhoddwyd y fframwaith llywodraethu yn ei le ar gyfer yr Awdurdod am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

## 4 Y Fframwaith Llywodraethu

4.1 Mae'r datganiad hwn yn disgrifio prif elfennau Fframwaith Llywodraethu'r Awdurdod a'n hunanasesiad o gydymffurfiaeth â Chod Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod. Mae'r sicrwydd llywodraethu sydd yn y datganiad hwn wedi ei strwythuro o gwmpas pob un o'r egwyddorion llywodraethu sydd yn y *International Framework: Good Governance in the Public Sector* (CIPFA/IOFAC, 2014).

4.2 Mae pob un o'r egwyddorion hyn yn rhan bwysig o drefniadau Cod Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod. Trwy gymhwyso'r egwyddorion, gallwn ddangos ein bod yn cyflwyno'r gwasanaethau i'n dinasyddion a'n cymunedau mewn ffordd sy'n dangos atebolrwydd, tryloywder, effeithiolrwydd, didwylledd a chynhwysiant.

**Egwyddor 1 – Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith**

Mae sefydliadau'r sector cyhoedd yn atebol, nid yn unig am faint maen nhw'n ei wario, ond am y ffordd y maen nhw'n defnyddio'r adnoddau sydd dan eu stiwardiaeth. Mae hyn yn cynnwys atebolrwydd am allbynnau, yn rhai cadarnhaol a negyddol, ac am y canlyniadau maen nhw wedi'u cael. Hefyd, mae cyfrifoldeb trosfwaol arnynt i wasanaethu lles y cyhoedd drwy gadw at ofynion y ddeddfwriaeth a pholisïau'r llywodraeth. Mae'n hanfodol eu bod, ar y cyfan, yn gallu dangos bod eu holl weithredoedd yn briodol a bod ganddynt fecanweithiau i annog a gorfodi ymlyniad at werthoedd moesegol a pharch at reol y gyfraith.

| **Is-egwyddorion ac ymddygiadau a gweithredoedd sy'n dangos llywodraethu da ar waith (Sut rydym wedi cyflawni'r egwyddorion)** | **Enghreifftiau o systemau, prosesau, dogfennau a thystiolaeth arall sy'n dangos cydymffurfiaeth (cael sicrwydd)** | **Gwelliannau y gellir eu gwneud ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol.** | **Sgôr hunan-asesiad**<br>**0 Tystiolaeth neu systemau/prosesau annigonol**<br>**1 Digonol**<br>**2 Arfer orau** |
|---|---|---|---|
| **Ymddwyn ac uniondeb**<br><br>Sicrhau bod aelodau a swyddogion yn ymddwyn ag uniondeb ac yn arwain diwylliant lle mae gweithredu er lles y cyhoedd yn amlwg ac yn cael ei ddangos yn gyson, gan felly ddiogelu enw da'r sefydliad | Codau ymddygiad<br><br>Llofnodi cod ymddygiad yr aelodau yn unigol pan fyddant yn ymuno â'r ATA.<br>Adolygu a diweddaru cod ymddygiad y swyddogion yn rheolaidd.<br><br>Sesiwn gynefino i aelodau newydd a'r staff ynglŷn â'r safon ymddygiad a ddisgwylir.<br>Pecyn cynefino – defnyddir dull cyson ymhob rhan o'r sefydliad<br><br>Gwerthuso perfformiad | | 2<br><br>1<br><br>1<br><br>1 |
| Sicrhau bod aelodau a swyddogion yn cymryd yr awenau wrth sefydlu egwyddorion gweithredu o safon benodol ar gyfer y sefydliad a'i staff, a'u bod yn cael eu cyfathrebu a'u deall. Dylai'r rhain adeiladu ar Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan) | Gweler y Cod Ymddygiad uchod.<br><br>Cyfathrebu gwerthoedd cyffredin i aelodau, staff, y gymuned a phartneriaid | | 2<br><br>1 |

| **Is-egwyddorion ac ymddygiadau a gweithredoedd sy'n dangos llywodraethu da ar waith (Sut rydym wedi cyflawni'r egwyddorion)** | **Enghreifftiau o systemau, prosesau, dogfennau a thystiolaeth arall sy'n dangos cydymffurfiaeth (cael sicrwydd)** | **Gwelliannau y gellir eu gwneud ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol.** | **Sgôr hunan-asesiad**<br>**0 Tystiolaeth neu systemau/prosesau annigonol**<br>**1 Digonol**<br>**2 Arfer orau** |
|---|---|---|---|
| Arwain drwy esiampl a defnyddio'r egwyddorion neu werthoedd gweithredu safonol hyn fel fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau a gweithredoedd eraill | Mae ymddygiadau arweinyddiaeth a nodir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu dilyn<br>• Gweithio ar gyfer y tymor hir – cydweithio â gwasanaethau brys eraill<br>• Tyfu a gwella drwy'r amser – cofleidio dysgu a datblygu ymhob rhan o'r Gwasanaeth<br>• Trin pawb â pharch – parchu amrywiaeth yng Nghymru<br>• Rhoi dinasyddion yn gyntaf – canolbwyntio ar anghenion ein cymuned.<br><br>Nodir rôl ac ymddygiad yr ATA yn y cyfansoddiad.<br><br>Mae buddiannau'n cael eu datgan mewn cyfarfodydd – mae'r cofnodion yn cadarnhau y gofynnwyd am ddatgan buddiannau a bod buddiannau'n cael eu datgan yn briodol<br><br>Ymddygiad mewn cyfarfodydd<br><br>Gwerthoedd cyffredin yn arwain penderfyniadau<br><br>Pwyllgor Safonau | | 2<br><br>2<br><br>2<br><br>2<br><br>2<br><br>2 |

| **Is-egwyddorion ac ymddygiadau a gweithredoedd sy'n dangos llywodraethu da ar waith (Sut rydym wedi cyflawni'r egwyddorion)** | **Enghreifftiau o systemau, prosesau, dogfennau a thystiolaeth arall sy'n dangos cydymffurfiaeth (cael sicrwydd)** | **Gwelliannau y gellir eu gwneud ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol.** | **Sgôr hunan-asesiad**<br>**0 Tystiolaeth neu systemau/prosesau annigonol**<br>**1 Digonol**<br>**2 Arfer orau** |
|---|---|---|---|
| Datgan, cyfathrebu a phlannu'r egwyddorion neu werthoedd gweithredu safonol drwy bolisïau a phrosesau sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol. | Mae polisïau gwrth-dwyll a llygredd yn gweithio'n effeithiol http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/1651/antifraud_corruption_policy_2014_cymraeg.pdf | | 1 |
| | Mae Swyddog Monitro'r Awdurdod yn cadw **Cofrestr o Fuddiannau Personol a Busnes yr Aelodau,** yn unol â'r Cod Ymddygiad. | | 1 |
| | Datganiad blynyddol gan aelodau a swyddogion am Drafodion Trydydd Parti. | | 1 |
| | Cofrestr flynyddol o roddion a lletygarwch | | 1 |
| | Briff wythnosol | | |
| | Mae'r Awdurdod yn cynnal Polisi **Chwythu'r Chwiban**, lle mae Aelodau a staff yn gallu mynegi pryderon am ymddygiad unrhyw un sy'n gysylltiedig â gwaith yr Awdurdod. Mae wedi cael ei gyfathrebu'n eang o fewn y Gwasanaeth ac mae'n cael ei adolygu'n rheolaidd. | Ar hyn o bryd, nid yw hwn ond ar gael yn fewnol ac yn y dyfodol bydd yn cael ei gyhoeddi ar y wefan ar gyfer y cyhoedd, partneriaid a chontractwyr. | 1 |
| | Mae aelodau'r cyhoedd yn gallu cael gwybodaeth ar y wefan drwy'r botwm 'cysylltu â ni' ynglŷn â gwneud cwyn am y Gwasanaeth. Mae'r Awdurdod wedi sefydlu polisi **Rheoli Cwynion** sy'n pennu'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli a monitro cwynion o ffynonellau allanol. | | 1 |

| **Is-egwyddorion ac ymddygiadau a gweithredoedd sy'n dangos llywodraethu da ar waith (Sut rydym wedi cyflawni'r egwyddorion)** | **Enghreifftiau o systemau, prosesau, dogfennau a thystiolaeth arall sy'n dangos cydymffurfiaeth (cael sicrwydd)** | **Gwelliannau y gellir eu gwneud ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol.** | **Sgôr hunan-asesiad**<br>**0 Tystiolaeth neu systemau/prosesau annigonol**<br>**1 Digonol**<br>**2 Arfer orau** |
|---|---|---|---|
| | Polisi disgyblu i ddelio ag unrhyw achosion o dorri'r cod ymddygiad i Swyddogion<br><br>Mae swydd y Swyddog Cydraddoldeb yn bodoli ers 01/08/02<br><br>Drwy ei **Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth** a'i **Gynllun Cydraddoldeb Strategol**, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd cyfartal mewn cyflogaeth ymhob rhan o'r sefydliad. Mae'n bolisi i sicrhau bod pob ymgeisydd a gweithiwr yn cael ei drin yn deg a gofalus ac i hyrwyddo awyrgylch gweithio braf i'r holl staff, sef awyrgylch sy'n rhydd o aflonyddu a fictimeiddio.<br><br>Cynllun Cydraddoldeb Strategol – mae'n rhan o gyfarfodydd rheolaidd ar gynllunio'r gyllideb/adrannau http://www.nwales-fireservice.org.uk/about-us/equality-and-diversity/strategic-equality-plan-2016-2020/ | | 2<br><br>2<br><br>2 |
| **Dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol**<br>Ceisio sefydlu, monitro a chynnal safonau a pherfformiad moesegol y sefydliad | Pwyllgor Archwilio – Craffu ar benderfyniadau moesegol | | 1 |
| Tanategu ymddygiad personol â gwerthoedd moesegol a sicrhau eu bod yn ymdreiddio i bob agwedd ar ddiwylliant a gweithrediad y sefydliad | Modiwl LearnPro – darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o foeseg | | 1 |

| **Is-egwyddorion ac ymddygiadau a gweithredoedd sy'n dangos llywodraethu da ar waith (Sut rydym wedi cyflawni'r egwyddorion)** | **Enghreifftiau o systemau, prosesau, dogfennau a thystiolaeth arall sy'n dangos cydymffurfiaeth (cael sicrwydd)** | **Gwelliannau y gellir eu gwneud ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol.** | **Sgôr hunan-asesiad**<br>**0 Tystiolaeth neu systemau/prosesau annigonol**<br>**1 Digonol**<br>**2 Arfer orau** |
|---|---|---|---|
| Datblygu a chynnal polisïau a gweithdrefnau cadarn sy'n rhoi pwyslais ar werthoedd moesegol y cytunwyd arnynt | Gweithdrefnau arfarnu i dalu sylw i werthoedd ac ymddygiad moesegol | | 1 |
| Sicrhau ei bod yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau allanol ar ran y gwasanaeth weithredu ag uniondeb ac yn unol â safonau moesegol uchel sy'n ddisgwyliedig gan y sefydliad | Mae'r Awdurdod wedi cytuno ar egwyddorion a phrosesau i sicrhau bod ei amcanion, ei flaenoriaethau a'i werthoedd yn cael eu hyrwyddo a'u diogelu wrth weithio mewn partneriaeth.<br><br>Mae'r Awdurdod wedi gwneud gwelliannau ym meysydd sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad o fewn maes **ymgysylltu â'r sector gwirfoddol**. Mae'r gwelliannau'n cynnwys:<br><br>• Ffurfioli'r dasg o ddarparu protocolau rhannu gwybodaeth ag asiantaethau partner;<br>• Mae gweithio mewn partneriaeth yn cael ei lywodraethu gan drefniadau, protocolau neu femoranda cyd-ddealltwriaeth sy'n berthnasol i'r math o waith neu'r berthynas dan sylw;<br><br>Mae gwerthoedd moesegol yn ymddangos mewn contractau â darparwyr gwasanaethau allanol | | 2<br><br>2 |

| Is-egwyddorion ac ymddygiadau a gweithredoedd sy'n dangos llywodraethu da ar waith (Sut rydym wedi cyflawni'r egwyddorion) | Enghreifftiau o systemau, prosesau, dogfennau a thystiolaeth arall sy'n dangos cydymffurfiaeth (cael sicrwydd) | Gwelliannau y gellir eu gwneud ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol. | Sgôr hunan-asesiad<br>0 Tystiolaeth neu systemau/prosesau annigonol<br>1 Digonol<br>2 Arfer orau |
|---|---|---|---|
| **Parchu rheol y gyfraith**<br>Sicrhau bod aelodau a'r staff yn dangos ymrwymiad cryf i reol y gyfraith n ogystal â chadw at y deddfau a'r rheoliadau perthnasol | Clerc yr Awdurdod Tân ac Achub yw'r '**Swyddog Monitro'** dynodedig, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, ac mae'n sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau, gweithdrefnau, deddfau a rheoliadau sefydledig. Ar ôl ymgynghori'n briodol, bydd y swyddog hwn yn adrodd i'r Awdurdod ynglŷn ag unrhyw gynigion, penderfyniadau neu hepgoriadau a allai fod yn anghyfreithlon. Mae'r trefniadau sefydledig sydd gan yr Awdurdod ar gyfer **gwrth-dwyll a llygredd** yn darparu arf ataliol, yn canfod llwybr clir ar gyfer ymchwilio ac annog gwaith atal. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdrefnau sydd wedi'i dylunio yn erbyn gwyngalchu arian. | | 2 |
| | Darpariaethau statudol<br>• Dilynir canllawiau statudol | | 2 |
| | Cyfansoddiad | | |
| | Cafodd hyfforddiant ymwybyddiaeth ym maes cyfraith cyflogaeth, chwythu'r chwiban, Deddf Llwgrwobrwyo 2010, Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth ei roi ymhob rhan o'r Gwasanaeth yn ystod 2015/16**.** | Ystyried y cyfnod ar gyfer adolygu'r hyfforddiant | 1 |
| Creu'r amodau ar gyfer sicrhau bod y swyddogion statudol, deiliaid swyddi allweddol eraill, a'r aelodau'n gallu cyflawni eu cyfrifoldebau yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol | Swydd-ddisgrifiadau/manylebau | | 1 |
| | Cydymffurfiaeth â Datganiad CIPFA ynglŷn â Rôl y Prif Swyddog Ariannol mewn Llywodraeth Leol (CIPFA, 2016) | | 2 |

| **Is-egwyddorion ac ymddygiadau a gweithredoedd sy'n dangos llywodraethu da ar waith (Sut rydym wedi cyflawni'r egwyddorion)** | **Enghreifftiau o systemau, prosesau, dogfennau a thystiolaeth arall sy'n dangos cydymffurfiaeth (cael sicrwydd)** | **Gwelliannau y gellir eu gwneud ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol.** | **Sgôr hunan-asesiad**<br>**0 Tystiolaeth neu systemau/prosesau annigonol**<br>**1 Digonol**<br>**2 Arfer orau** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Ymdrechu i wneud y defnydd mwyaf o'r pwerau llawn sydd ar gael ers lles dinasyddion, cymunedau a rhanddeiliaid eraill | Mae cofnod o gyngor cyfreithiol a ddarparwyd gan swyddogion ar gael drwy gofnodion cyfarfodydd | | 2 |
| Delio'n effeithiol ag achosion o dorri'r darpariaethau cyfreithiol a rheoleiddiol | Swyddog Monitro<br><br>Wedi sefydlu trefniadau **gwrth-dwyll a llygredd**<br><br>Bwrdd Pensiwn Lleol – darperir hyfforddiant i'r aelodau am achosion o dorri'r gyfraith ac mae polisi ar gael. [http://www.nwales-fireservice.org.uk/fire-and-rescue-authority/local-pension-board/](http://www.nwales-fireservice.org.uk/fire-and-rescue-authority/local-pension-board/) | | 1<br><br>1<br><br>2 |
| Sicrhau bod achosion o lygredd a chamddefnyddio pŵer yn cael eu trin yn effeithiol | Darperir hyn drwy'r polisi disgyblaeth | | 1 |

| **Egwyddorion 2 Sicrhau didwylledd ac ymgysylltiad cynhwysfawr rhanddeiliaid**<br>Mae sefydliadau'r sector cyhoeddus yn cael eu rhedeg er lles y cyhoedd, felly dylai sefydliadau sicrhau didwylledd yn eu gweithgareddau. Dylid defnyddio sianelau clir a dibynadwy ar gyfer cyfathrebu ac ymgynghori er mwyn ymgysylltu'n effeithiol â phob grŵp o randdeiliaid, megis dinasyddion unigol a defnyddwyr gwasanaethau, yn ogystal â rhanddeiliaid sefydliadol | | | |
|---|---|---|---|
| **Is-egwyddorion ac ymddygiadau a gweithredoedd sy'n dangos llywodraethu da ar waith (Sut rydym wedi cyflawni'r egwyddorion)** | **Enghreifftiau o systemau, prosesau, dogfennau a thystiolaeth arall sy'n dangos cydymffurfiaeth (cael sicrwydd)** | **Gwelliannau y gellir eu gwneud ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol.** | **Sgôr hunan-asesiad**<br>**0 Tystiolaeth neu systemau/prosesau annigonol**<br>**1 Digonol**<br>**2 Arfer orau** |
| **Didwylledd**<br>Sicrhau diwylliant agored drwy ddangos, dogfennu a chyfathrebu ymrwymiad y sefydliad i ddidwylledd | Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod angen iddo gyfathrebu â'r bobl sy'n byw, yn gweithio, neu'n ymweld â'r rhanbarth, a hynny er mwyn addysgu a hysbysu pobl am ei weithgareddau atal, amddiffyn ac ymateb. Yr **Adran Cyfathrebu Corfforaethol** sydd â'r cyfrifoldeb o ddydd i ddydd am gydlynu cyfathrebiadau allanol a mewnol, cysylltiadau â'r cyfryngau, polisi'r Gymraeg a chyfieithu. Mae sylw cadarnhaol yn y cyfryngau yn gwella enw da'r Gwasanaeth ac mae'n hybu'r nod o wneud Gogledd Cymru yn ardal fwy diogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi.<br><br>Adroddiad blynyddol<br><br>Cynllun cyhoeddi'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth<br><br>Gwefan yr Awdurdod a gwybodaeth yr ATA ar-lein<br><br>Nodau a gwerthoedd yr Awdurdod | | 2 |

| Is-egwyddorion ac ymddygiadau a gweithredoedd sy'n dangos llywodraethu da ar waith (Sut rydym wedi cyflawni'r egwyddorion) | Enghreifftiau o systemau, prosesau, dogfennau a thystiolaeth arall sy'n dangos cydymffurfiaeth (cael sicrwydd) | Gwelliannau y gellir eu gwneud ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol. | Sgôr hunan-asesiad<br>0 Tystiolaeth neu systemau/prosesau annigonol<br>1 Digonol<br>2 Arfer orau |
|---|---|---|---|
| Gwneud penderfyniadau sy'n agored ynglŷn â chamau gweithredu, cynlluniau, defnyddio adnoddau, rhagweld, allbynnau a chanlyniadau. Didwylledd yw'r rhagdybiaeth. Os nad felly y mae, dylid darparu cyfiawnhad dros y rhesymau am gadw penderfyniad yn gyfrinachol | Cofnod o'r modd y gwneir penderfyniadau a deunyddiau ategol – Mae holl eitemau agendâu'r ATA ar gael ar y wefan | | 2 |
| Darparu rhesymau clir a thystiolaeth dros benderfyniadau o ran cofnodion cyhoeddus, ac esboniadau i randdeiliaid a bod yn glir am y meini prawf, y rhesymeg a'r ystyriaethau a ddefnyddiwyd. Sicrhau maes o law bod yr effaith a chanlyniadau'r penderfyniadau hynny'n glir | Adroddiadau cyfarfodydd yn dangos manylion y cyngor a roddwyd<br><br>Cytuno ar yr wybodaeth a fydd yn cael ei darparu a'r amserlenni<br><br>Dilyn calendr â dyddiadau ar gyfer cyflwyno, cyhoeddi a dosbarthu adroddiadau amserol<br><br>Pob adroddiad ar gael drwy'r wefan i'r cyhoedd cyn y cyfarfodydd<br>Cofnodion cyfarfodydd ar gael ar y wefan | Dylid adolygu diwyg papurau'r ATA er mwyn gwella'r cyflwyniad. | 1 |
| Defnyddio ymgynghoriad ac ymgysylltiad ffurfiol ac anffurfiol er mwyn penderfynu ar y camau gweithredu/ymyriadau mwyaf priodol | Ymgynghorir yn flynyddol â rhanddeiliaid yr Awdurdod ynglŷn â phenderfynu ar y blaenoriaethau sydd eu hangen er mwyn gwireddu'r weledigaeth a osodwyd yn y Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella. Mae'r adroddiad sy'n cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth bob blwyddyn yn amlinellu sut bydd yr Awdurdod yn gwneud gwelliannau ac yn lleihau risg yn ogystal â gosod amcanion gwella ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod a'r flwyddyn ddilynol. | | 2 |

| **Is-egwyddorion ac ymddygiadau a gweithredoedd sy'n dangos llywodraethu da ar waith (Sut rydym wedi cyflawni'r egwyddorion)** | **Enghreifftiau o systemau, prosesau, dogfennau a thystiolaeth arall sy'n dangos cydymffurfiaeth (cael sicrwydd)** | **Gwelliannau y gellir eu gwneud ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol.** | **Sgôr hunan-asesiad**<br>**0 Tystiolaeth neu systemau/prosesau annigonol**<br>**1 Digonol**<br>**2 Arfer orau** |
|---|---|---|---|
| | Strategaeth llesiant (bwrdd gwasanaethau lleol) a datganiad (awdurdod lleol)<br><br>Defnyddio adborth ymgynghoriadau<br><br>Polisi cwynion a defnyddio cwynion | | |
| **Ymgysylltu'n gynhwysfawr â rhanddeiliaid sefydliadol**<br>Ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid sefydliadol er mwyn sicrhau bod y pwrpas, yr amcanion a'r canlyniadau a fwriedir ar gyfer pob perthynas â rhanddeiliaid yn glir fel bod modd sicrhau canlyniadau'n llwyddiannus a chynaliadwy | Mae'r Awdurdod wedi sefydlu **Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol 2014-19: *Rhoi Pobl yn Gyntaf***, sy'n nodi'r egwyddorion a'r dull i'w dilyn er mwyn sicrhau gwelliant parhaus yn y gwaith i gyfathrebu â rhanddeiliaid allweddol. Hefyd, mae'r Awdurdod yn rhan o **Femorandwm Cyd-dealltwriaeth Cymru gyfan: *Ein Cyfeiriad Strategol*,** sydd wedi cael ei lunio gan y Grŵp Cyfathrebu Cymru gyfan. Ei bwrpas yw cynorthwyo'r tri ATA yng Nghymru i fabwysiadu dull cyffredin a generig o ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd<br><br>Mae'r Dirprwy Brif Swyddog Tân ac Uwch Swyddogion eraill yn cwrdd yn rheolaidd ag aelodau o Gyrff Cynrychioliadol yr Awdurdod i ymgynghori ynghylch polisïau allweddol a newidiadau i'r modd y darperir gwasanaethau.<br><br>Mae Prif Swyddogion a Chadeiryddion ATAau yn cael cyfarfodydd rheolaidd ag Ysgrifennydd perthnasol y Cabinet a gweision sifil i drafod materion diogelwch tân. | | 2 |

| **Is-egwyddorion ac ymddygiadau a gweithredoedd sy'n dangos llywodraethu da ar waith (Sut rydym wedi cyflawni'r egwyddorion)** | **Enghreifftiau o systemau, prosesau, dogfennau a thystiolaeth arall sy'n dangos cydymffurfiaeth (cael sicrwydd)** | **Gwelliannau y gellir eu gwneud ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol.** | **Sgôr hunan-asesiad**<br>**0 Tystiolaeth neu systemau/prosesau annigonol**<br>**1 Digonol**<br>**2 Arfer orau** |
|---|---|---|---|
| Datblygu partneriaethau ffurfiol ac anffurfiol er mwyn gallu defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a chyflawni'r canlyniadau'n fwy effeithiol | Cydweithio ag awdurdodau cyfansoddol, Heddlu Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, a gwaith a wneir drwy'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol | | 2 |
| Sicrhau bod partneriaethau'n seiliedig ar:<br>• ymddiriedaeth<br>• ymrwymiad cyffredin i newid<br>• diwylliant sy'n hyrwyddo ac yn derbyn her ymysg partneriaid<br>• a bod y gwerth ychwanegol a ddaw o weithio mewn partneriaeth yn amlwg | Strategaeth llesiant<br><br>Protocolau partneriaeth<br><br>Prosiectau cydweithredol | | 2 |
| **Ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid, gan gynnwys dinasyddion unigol a defnyddwyr gwasanaethau**<br>Sefydlu polisi clir ar y math o faterion y bydd y sefydliad yn ymgynghori'n ystyrlon â nhw neu a fydd yn cynnwys dinasyddion unigol, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod darparu gwasanaethau neu ddarpariaeth arall yn cyfrannu tuag at gyflawni'r canlyniadau a fwriedir | Cofnod o ymgynghoriadau cyhoeddus<br><br>Fframwaith partneriaethau<br><br>Cylch gorchwyl byrddau gwasanaethau cyhoeddus | | 2 |
| Sicrhau bod dulliau cyfathrebu'n effeithiol a bod yr aelodau a'r swyddogion yn glir am eu rolau o ran ymgysylltu â'r gymuned | Cytunir ar y strategaeth gyfathrebu gan yr Awdurdod Tân ac Achub llawn bob blwyddyn cyn yr ymgynghoriad ynglŷn â'r **Cynllun Cyfunol ar gyfer Gwella a Llesiant**. | | 1 |

| Is-egwyddorion ac ymddygiadau a gweithredoedd sy'n dangos llywodraethu da ar waith (Sut rydym wedi cyflawni'r egwyddorion) | Enghreifftiau o systemau, prosesau, dogfennau a thystiolaeth arall sy'n dangos cydymffurfiaeth (cael sicrwydd) | Gwelliannau y gellir eu gwneud ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol. | Sgôr hunan-asesiad<br>0 Tystiolaeth neu systemau/prosesau annigonol<br>1 Digonol<br>2 Arfer orau |
|---|---|---|---|
| Gweithredu mecanweithiau adborth effeithiol er mwyn dangos sut mae eu barn wedi cael ei hystyried | Mae'r strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu'n datgan y rhoddir adborth drwy adroddiadau i'r Panel Gweithredol a'r Awdurdod Tân ac Achub llawn | | 1 |
| Ystyried buddiannau cenedlaethau'r dyfodol o drethdalwyr a defnyddwyr gwasanaethau | Dan yr amcanion a'r datganiad llesiant a thrwy'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus | | 1 |

**Egwyddor 3. Diffinio canlyniadau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n gynaliadwy**

Mae natur ac effaith hirdymor llawer o gyfrifoldebau'r sector cyhoeddus yn golygu y dylai ddiffinio a chynllunio chanlyniadau ac y dylai'r rhain fod yn gynaliadwy. Dylai'r penderfyniadau hybu pwrpas yr awdurdod, cyfrannu at y manteision a'r canlyniadau a fwriedir, ac aros o fewn cyfyngiadau'r awdurdodau a'i adnoddau. Mae mewnbwn gan bob grŵp o randdeiliaid, gan gynnwys dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau, a rhanddeiliaid y sefydliad yn hanfodol i lwyddiant y broses hon ac er mwyn cael cydbwysedd rhwng gofynion sy'n cystadlu â'i gilydd wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael.

| **Is-egwyddorion ac ymddygiadau a gweithredoedd sy'n dangos llywodraethu da ar waith (Sut rydym wedi cyflawni'r egwyddorion)** | **Enghreifftiau o systemau, prosesau, dogfennau a thystiolaeth arall sy'n dangos cydymffurfiaeth (cael sicrwydd)** | **Gwelliannau y gellir eu gwneud ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol.** | **Sgôr hunan-asesiad**<br>**0 Tystiolaeth neu systemau/prosesau annigonol**<br>**1 Digonol**<br>**2 Arfer orau** |
|---|---|---|---|
| **Diffinio canlyniadau**<br>Cael gweledigaeth glir sy'n ddatganiad ffurfiol y cytunir arno o bwrpas y sefydliad a'r canlyniadau a fwriedir, gan gynnwys dangosyddion perfformiad priodol, sy'n darparu'r sail ar gyfer strategaeth gyffredinol y sefydliad, cynllunio a phenderfyniadau eraill | Mae **Cynllun Cyfunol blynyddol yr Awdurdod ar gyfer Gwella a Llesiant** yn nodi ei weledigaeth, ei ddatganiad cenhadaeth a'i werthoedd. Mae'r cynllun yn cael ei lunio yn unol â dyletswyddau penodol sy'n deillio o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru 2008-11. Mae'r tri phwrpas gwahanol yn cael sylw yn y cynllun:<br>• Darparu gwybodaeth am yr Awdurdod a'r Gwasanaeth, a'r cyd-destun y maent yn gweithredu o'i fewn;<br>• Cofnodi blaenoriaethau uchaf yr Awdurdod ac olrhain ei gynnydd wrth gyrraedd nodau penodol;<br>• Cofnodi perfformiad hanesyddol sy'n cwmpasu tair blynedd ariannol.<br>http://www.nwales-fireservice.org.uk/about-us/performance-and-improvement/improvement-planning/?lang=cy-gb<br><br>Mae'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth bob blwyddyn, ac mae'n amlinellu sut bydd yr Awdurdod yn gwneud gwelliannau a sut bydd yn lleihau'r risg ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn ogystal â gosod ei amcanion gwella ei hun. | | 2 |

| **Is-egwyddorion ac ymddygiadau a gweithredoedd sy'n dangos llywodraethu da ar waith (Sut rydym wedi cyflawni'r egwyddorion)** | **Enghreifftiau o systemau, prosesau, dogfennau a thystiolaeth arall sy'n dangos cydymffurfiaeth (cael sicrwydd)** | **Gwelliannau y gellir eu gwneud ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol.** | **Sgôr hunan-asesiad**<br>**0 Tystiolaeth neu systemau/prosesau annigonol**<br>**1 Digonol**<br>**2 Arfer orau** |
|---|---|---|---|
| | Yn unol ag Adran 15 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae'r Awdurdod yn mynd ati bob blwyddyn i gyhoeddi asesiad o'i berfformiad drwy '**Sut y gwnaethom ni?**' Mae'r asesiad yn dangos sut mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswydd gyffredinol i wella a gwneud cynnydd mewn perthynas â'r amcanion y mae'n eu gosod iddo'i hun ar gyfer y flwyddyn. Mae hefyd yn crynhoi ei waith cydweithredol a'i berfformiad mewn perthynas â dangosyddion perfformiad cenedlaethol a lleol penodedig a mesurau llwyddiant. | | 2 |
| Pennu'r effaith a fwriedir ar randdeiliaid, neu newidiadau i randdeiliaid, gan gynnwys dinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau. Gallai hyn fod ar unwaith neu dros gyfnod o flwyddyn neu ragor | Mae cydweithio a gweithio mewn partneriaeth wedi cael ei ehangu drwy gymryd rhan ym mhedwar bwrdd rhanbarthol y **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**. Roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, yn lle'r Byrddau Gwasanaethau Lleol (gwirfoddol) yn ardal pob awdurdod lleol. Dyma amcanion allweddol y byrddau:<br>• Asesu'r sefyllfa llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ei ardal;<br>• Gosod amcanion gyda'r bwriad o wneud y mwyaf o gyfraniad y byrddau i'r nodau llesiant.<br><br>Datganiad ac amcanion llesiant<br>• Defnyddio'r weledigaeth fel sail ar gyfer cynllunio corfforaethol a chynllunio | | 2 |

| Is-egwyddorion ac ymddygiadau a gweithredoedd sy'n dangos llywodraethu da ar waith (Sut rydym wedi cyflawni'r egwyddorion) | Enghreifftiau o systemau, prosesau, dogfennau a thystiolaeth arall sy'n dangos cydymffurfiaeth (cael sicrwydd) | Gwelliannau y gellir eu gwneud ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol. | Sgôr hunan-asesiad<br>0 Tystiolaeth neu systemau/prosesau annigonol<br>1 Digonol<br>2 Arfer orau |
|---|---|---|---|
| | gwasanaethau | | |
| Darparu canlyniadau penodedig yn gynaliadwy o fewn yr adnoddau a fydd ar gael | Drwy gydol y flwyddyn, mae Prif Swyddogion yn atebol am sicrhau bod blaenoriaethau'r Awdurdod yn cael eu cyflawni. Mae perfformiad mewn perthynas â thargedau allweddol yn cael i fonitro'n rheolaidd drwy'r fframwaith **rheoli perfformiad** ac adroddir hyn i'r Aelodau bob chwarter yn ogystal ag ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. | | 2 |
| Canfod a rheoli risgiau rhag sicrhau canlyniadau | Sefydlu tueddiadau perfformiad ac adrodd yn eu cylch<br><br>Rheoli risgiau drwy'r gofrestr risgiau | | 1 |
| Rheoli disgwyliadau defnyddwyr gwasanaethau'n effeithiol o ran pennu blaenoriaethau a defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y ffordd orau | Mae'r ymgynghoriad ar y Cynllun Gwella a Llesiant yn goleuo disgwyliadau defnyddwyr gwasanaethau<br><br>Ar ddiwedd pob blwyddyn, ac yn unol â'r ddeddfwriaeth, mae'r Awdurdod yn cyhoeddi ei **Ddatganiad o Gyfrifon** blynyddol i roi gwybodaeth glir am ei sefyllfa ariannol a'i berfformiad yn ystod y flwyddyn.<br>O fewn y datganiadau ariannol, mae **Barn Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru**. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 roedd barn yr archwiliad yn rhoi golwg wir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn y flwyddyn.<br>Hefyd, mae crynodeb clir a hawdd i'w ddarllen o berfformiad yr Awdurdod yn cael ei lunio ac mae ar gael ar wefan yr Awdurdod lle gall aelodau'r cyhoedd ei ddarllen. | | 2<br><br>2 |

| **Is-egwyddorion ac ymddygiadau a gweithredoedd sy'n dangos llywodraethu da ar waith (Sut rydym wedi cyflawni'r egwyddorion)** | **Enghreifftiau o systemau, prosesau, dogfennau a thystiolaeth arall sy'n dangos cydymffurfiaeth (cael sicrwydd)** | **Gwelliannau y gellir eu gwneud ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol.** | **Sgôr hunan-asesiad**<br>**0 Tystiolaeth neu systemau/prosesau annigonol**<br>**1 Digonol**<br>**2 Arfer orau** |
|---|---|---|---|
| **Manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy**<br>Ystyried a chydbwyso effaith economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol gyfunol polisïau, cynlluniau a phenderfyniadau, wrth wneud penderfyniadau am ddarpariaeth gwasanaethau | Gofynion deddfwriaethol – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.<br><br>Mae gan yr Awdurdod drefniadau cadarn ar gyfer **rheolaeth ariannol** effeithiol drwy ei weithdrefnau cyfrifyddu a'r Rheoliadau Ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdrefnau sefydledig ar gyfer cynllunio'r gyllideb, sy'n agored i asesiad risg, ac adroddiadau rheolaidd i'r Aelodau yn cymharu'r gwariant refeniw a chyfalaf gwirioneddol â chyllidebau blynyddol. Mae'r Trysorydd yn gyfrifol am sicrhau gweinyddiaeth briodol i faterion ariannol yr Awdurdod, fel sy'n ofynnol gan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae gwahaniad clir yn y cyfrifoldebau rhwng y swyddogaeth cyfrifyddu rheolaeth sy'n cael ei wneud yn fewnol a'r swyddogaeth cyfrifyddu ariannol sy'n cael ei wneud drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae trefniadau **Rheoli'r Trysorlys** yn yr Awdurdod yn dilyn arferion proffesiynol ac maent yn agored i adolygiad rheolaidd ac maent yn cynnwys adroddiadau a gyflwynir i'r Aelodau bob chwarter.<br><br>Mae buddsoddiad cyfalaf wedi'i strwythuro er mwyn sicrhau oes briodol a'r gallu i addasu ar gyfer y dyfodol fel bod adnoddau'n cael eu gwario ar sicrhau'r llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol mwyaf: rhaglen gyfalaf. | Adolygu a chyhoeddi rheolau sefydlog ar gyfer contractau | 2 |

| **Is-egwyddorion ac ymddygiadau a gweithredoedd sy'n dangos llywodraethu da ar waith (Sut rydym wedi cyflawni'r egwyddorion)** | **Enghreifftiau o systemau, prosesau, dogfennau a thystiolaeth arall sy'n dangos cydymffurfiaeth (cael sicrwydd)** | **Gwelliannau y gellir eu gwneud ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol.** | **Sgôr hunan-asesiad**<br>**0 Tystiolaeth neu systemau/prosesau annigonol**<br>**1 Digonol**<br>**2 Arfer orau** |
|---|---|---|---|
| Cael golwg mwy tymor hir ar gyfer gwneud penderfyniadau, ystyried risg a gweithredu'n dryloyw pan fo gwrthdaro posibl buddiannau rhwng canlyniadau y mae'r sefydliad yn bwriadu eu cael a'r ffactorau tymor byr, megis y cylch gwleidyddol neu gyfyngiadau ariannol | Mae cynlluniau corfforaethol yn ystyried y cynlluniau gwasanaeth tymor canolig a thymor hir<br><br>Trafodaeth rhwng aelodau a swyddogion am yr anghenion am wybodaeth ymysg yr aelodau er mwyn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau<br><br>Cofnodi'r modd y gwneir penderfyniadau a'r deunyddiau ategol | | 2 |
| Pennu'r buddiant i'r cyhoedd yn ehangach yn gysylltiedig ar gydbwyso buddiannau sy'n cystadlu â'i gilydd o ran sicrhau'r manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol amrywiol, a hynny drwy ymgynghori os oes modd er mwyn sicrhau cyfaddawdau priodol | Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn adrodd bob blwyddyn ynghylch y cynnydd a wnaed gennym o ran cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb a hyrwyddo'r blaenoriaethau a nodir yn **ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol** fel rhan o broses barhaus. Gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a'i bartneriaid, Coleg Cambria, AVOW, Prifysgol Glyndŵr, Heddlu Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, byddwn yn gweithio i wneud y canlynol:<br>• Dileu gwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio;<br>• Hybu cyfle cyfartal; a<br>• Hybu perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau o bobl a chymunedau.<br>Cynllun llesiant y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus<br>• Cofnodi'r modd y gwneir penderfyniadau a deunyddiau ategol<br>• Protocolau ar gyfer ymgynghori | | 2 |

**Egwyddor 4. Pennu'r ymyriadau angenrheidiol er mwyn optimeiddio'r gwaith o sicrhau'r canlyniadau a fwriedir**

Mae sefydliadau'r sector cyhoeddus yn optimeiddio'r gwaith o sicrhau'r canlyniadau a fwriedir drwy ddarparu cymysgedd o ymyriadau cyfreithiol, rheoleiddiol ac ymarferol. Mae pennu'r gymysgedd gywir o'r camau gweithredu hyn yn ddewis strategol hollbwysig y mae sefydliadau'r sector cyhoeddus yn ei wneud er mwyn sicrhau bod y canlyniadau a fwriedir yn cael eu cyflawni. Mae angen mecanweithiau cadarn arnynt ar gyfer gwneud penderfyniad er mwyn sicrhau bod modd sicrhau'r canlyniadau penodedig mewn ffordd sy'n darparu'r cyfaddawd gorau rhwng y mathau gwahanol o fewnbynnau adnoddau tra hefyd yn galluogi gweithrediadau effeithiol ac effeithlon. Mae angen adolygu'r penderfyniadau'n barhaus er mwyn optimeidio'r gwaith o sicrhau'r canlyniadau a fwriedir

| **Is-egwyddorion ac ymddygiadau a gweithredoedd sy'n dangos llywodraethu da ar waith (Sut rydym wedi cyflawni'r egwyddorion)** | **Enghreifftiau o systemau, prosesau, dogfennau a thystiolaeth arall sy'n dangos cydymffurfiaeth (cael sicrwydd)** | **Gwelliannau y gellir eu gwneud ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol.** | **Sgôr hunan-asesiad**<br>**0 Tystiolaeth neu systemau/prosesau annigonol**<br>**1 Digonol**<br>**2 Arfer orau** |
|---|---|---|---|
| **Pennu ymyriadau**<br>Sicrhau bod penderfynwyr yn cael dadansoddiad gwrthrychol a thrwyadl o amrywiaeth o opsiynau sy'n dangos sut byddai'r canlyniadau a fwriedir yn cael eu cyflawni ac sy'n cynnwys y risgiau sy'n gysylltiedig â'r opsiynau hynny. Felly, llwyddir i sicrhau gwerth gorau sut bynnag mae gwasanaethau'n cael eu darparu | Mae'r ATA yn cael dadansoddiad gwrthrychol a thrwyadl drwy Weithgor y Cynllun Gwella a thrwy adroddiadau rheolaidd i'r Panel Gweithredol, y Pwyllgor Archwilio a'r ATA llawn. | | 2 |
| Ystyried adborth gan ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth wrth wneud penderfyniadau am welliannau i'r gwasanaeth neu pan nad oes angen gwasanaethau mwyach er mwyn blaenoriaethu gofynion sy'n cystadlu â'i gilydd o fewn adnoddau cyfyngedig sydd ar gael, gan gynnwys pobl, sgiliau, tir ac asedau, a gan gofio am effeithiau ar y dyfodol | Strategaeth ariannol<br><br>Gweler y strategaeth ymgynghori | | 1 |
| **Cynllunio ymyriadau**<br>Sefydlu a gweithredu cylchoedd cynllunio a rheoli sy'n gadarn ac sy'n ymdrin â chynlluniau strategol a gweithredol, blaenoriaethau a thargedau | Calendr â dyddiadau ar gyfer datblygu a chyflwyno cynlluniau ac adroddiadau a ddilynir<br><br>Cyfarfodydd rheolaidd am y gyllideb gyda phenaethiaid adrannau. | | 2 |

| **Is-egwyddorion ac ymddygiadau a gweithredoedd sy'n dangos llywodraethu da ar waith (Sut rydym wedi cyflawni'r egwyddorion)** | **Enghreifftiau o systemau, prosesau, dogfennau a thystiolaeth arall sy'n dangos cydymffurfiaeth (cael sicrwydd)** | **Gwelliannau y gellir eu gwneud ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol.** | **Sgôr hunan-asesiad**<br>**0 Tystiolaeth neu systemau/prosesau annigonol**<br>**1 Digonol**<br>**2 Arfer orau** |
|---|---|---|---|
| Ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol wrth benderfynu sut dylid cynllunio a darparu gwasanaethau a chamau gweithredu eraill | Strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu<br><br>Cynlluniau llesiant y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus | | 2 |
| Ystyried a monitro'r risgiau sy'n wynebu pob partner wrth weithio ar y cyd, gan gynnwys risgiau cyffredin | Fframwaith partneriaethau, cylch gorchwyl a Chyd-Grŵp y Gwasanaethau Brys, a defnyddio cofrestrau risg unigol | | 1 |
| Sefydlu dangosyddion perfformiad lleol priodol (yn ogystal â dangosyddion perfformiad statudol neu genedlaethol eraill) fel rhan o'r broses gynllunio er mwyn canfod sut bydd perfformiad gwasanaethau a phrosiectau'n cael eu mesur | Sefydlwyd dangosyddion perfformiad lleol a chawsant eu cymeradwyo ar gyfer pob elfen wasanaeth a'u cynnwys yn y cynllun gwasanaeth, ac adroddir yn eu cylch yn rheolaidd<br><br>Yn ogystal â hynny, mae gennym ddangosyddion perfformiad lleol a ddyfeisiwyd ar lefel Cymru gyfan drwy'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol. | | 1 |
| Sicrhau bod capasiti'n bodoli i gynhyrchu'r wybodaeth sydd ei angen i adolygu ansawdd y gwasanaeth yn rheolaidd | Mae'r adroddiadau'n cynnwys canlyniadau perfformiad manwl ac maent yn tynnu sylw at feysydd lle mae angen camau i gywiro.<br><br>Yr Adran Cynllunio Corfforaethol a'r Adran Gyllid a Chytundebau Lefel Gwasanaeth ag awdurdodau cyfansoddol | | 1 |
| Llunio cyllidebau yn unol ag amcanion y sefydliad, strategaethau a'r cynllun ariannol tymor canolig | Tystiolaeth fod cyllidebau, cynlluniau ac amcanion yn gyson | | 2 |

| **Is-egwyddorion ac ymddygiadau a gweithredoedd sy'n dangos llywodraethu da ar waith (Sut rydym wedi cyflawni'r egwyddorion)** | **Enghreifftiau o systemau, prosesau, dogfennau a thystiolaeth arall sy'n dangos cydymffurfiaeth (cael sicrwydd)** | **Gwelliannau y gellir eu gwneud ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol.** | **Sgôr hunan-asesiad**<br>**0 Tystiolaeth neu systemau/prosesau annigonol**<br>**1 Digonol**<br>**2 Arfer orau** |
|---|---|---|---|
| Goleuo'r gwaith o gynllunio adnoddau tymor canolig a thymor hir drwy lunio amcangyfrifon realistig o wariant refeniw a chyfalaf wedi'u hanelu at ddatblygu strategaeth gyllido gynaliadwy | Canllawiau a phrotocolau ar gyfer y gyllideb<br><br>Cynllun ariannol tymor canolig<br><br>Cynlluniau corfforaethol | | 2 |
| **Optimeiddio'r gwaith o sicrhau'r canlyniadau a fwriedir**<br>Sicrhau bod y strategaeth ariannol tymor canolig yn integreiddio ac yn cydbwyso blaenoriaethau gwasanaethau, fforddiadwyedd a chyfyngiadau eraill o ran adnoddau | Wrth ystyried y Fframwaith Cenedlaethol, mae'r Awdurdod yn sefydlu ei strategaeth ariannol tymor canolig, ac ohoni hi mae'n sefydlu ei gyllidebau blynyddol ar sail blaenoriaethau'r Gwasanaeth a osodir gan yr Awdurdod a gan ystyried cyfarwyddyd cenedlaethol. | | 1 |
| Sicrhau bod y broses gyllidebu'n un hollgynhwysfawr, gan ystyried holl gost gweithrediadau dros y tymor canolig a'r tymor hir | Fel uchod | | 1 |
| Sicrhau bod y strategaeth ariannol tymor canolig yn gosod y cyd-destun ar gyfer penderfyniadau parhaus ynglŷn â materion cyflenwi arwyddocaol neu ymatebion i newidiadau yn yr amgylchedd allanol a allai ddigwydd yn ystod y cyfnod cyllidebol er mwyn sicrhau canlyniadau wrth optimeiddio'r defnydd o adnoddau | Fel uchod | | 1 |

**Egwyddor 5. Datblygu capasiti'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion o'i fewn**

Mae angen strwythurau ac arweinyddiaeth ar sefydliadau'r sector cyhoeddus, yn ogystal â phobl sydd â'r sgiliau cywir, y cymwysterau priodol a'r meddylfryd i weithredu'n effeithlon ac effeithiol ac i sicrhau'r canlyniadau a fwriedir o fewn y cyfnodau penodedig. Rhaid i sefydliad yn y sector cyhoeddus sicrhau bod ganddo'r capasiti i gyflawni ei fandad ei hun a sicrhau bod polisïau wedi cael eu sefydlu i warantu bod gan ei reolwyr y capasiti gweithredol ar gyfer y sefydliad yn ei gyfanrwydd. Oherwydd bod unigolion a'r amgylchedd y mae awdurdod yn gweithredu o'i fewn yn newid dros amser, bydd angen parhaus i ddatblygu ei gapasiti yn ogystal â sgiliau a phrofiad arweinyddol aelodau unigol o'r staff. Mae arweinyddiaeth yn endidau'r sector cyhoeddus yn cael ei gryfhau gan gyfranogiad pobl o lawer o wahanol fathau o gefndiroedd, gan adlewyrchu strwythur ac amrywiaeth cymunedau

| **Is-egwyddorion ac ymddygiadau a gweithredoedd sy'n dangos llywodraethu da ar waith (Sut rydym wedi cyflawni'r egwyddorion)** | **Enghreifftiau o systemau, prosesau, dogfennau a thystiolaeth arall sy'n dangos cydymffurfiaeth (cael sicrwydd)** | **Gwelliannau y gellir eu gwneud ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol.** | **Sgôr hunan-asesiad**<br>**0 Tystiolaeth neu systemau/prosesau annigonol**<br>**1 Digonol**<br>**2 Arfer orau** |
|---|---|---|---|
| **Datblygu capasiti'r endid**<br>Adolygu gweithrediadau, perfformiad a'r defnydd o asedau yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n effeithiol | Mae'r adran Safonau Perfformiad yn cynnal adolygiadau rheolaidd o weithgareddau, allbynnau a'r canlyniadau a fwriedir | | 2 |
| Gwella'r defnydd o adnoddau drwy gymhwyso technegau'n briodol, megis meincnodi ac opsiynau eraill i bennu sut mae adnoddau'r awdurdod yn cael eu dyrannu er mwyn sicrhau canlyniadau'n effeithiol ac effeithlon | Defnyddio asesiadau cymheiriaid, meincnodi a gweithio drwy'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol er mwyn cynyddu datblygiad sefydliadol a gwella effeithlonrwydd | | 1 |
| Cydnabod manteision partneriaethau a chydweithio pan ellir sicrhau gwerth ychwanegol | Gweithrediad effeithiol partneriaethau sy'n sicrhau'r canlyniadau a fwriedir | | 2 |
| Datblygu a chynnal cynllun gweithlu effeithiol er mwyn gwella'r modd y mae adnoddau'n cael eu dyrannu'n strategol | Strategaeth Sicrhau Adnoddau lle mae gennym gynllunio ar gyfer olyniaeth, datblygiad sefydliadol a llwybrau | | 2 |

| **Is-egwyddorion ac ymddygiadau a gweithredoedd sy'n dangos llywodraethu da ar waith (Sut rydym wedi cyflawni'r egwyddorion)** | **Enghreifftiau o systemau, prosesau, dogfennau a thystiolaeth arall sy'n dangos cydymffurfiaeth (cael sicrwydd)** | **Gwelliannau y gellir eu gwneud ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol.** | **Sgôr hunan-asesiad**<br>**0 Tystiolaeth neu systemau/prosesau annigonol**<br>**1 Digonol**<br>**2 Arfer orau** |
|---|---|---|---|
| **Datblygu gallu arweinyddiaeth yr endid ac unigolion eraill**<br>Datblygu protocolau i sicrhau bod arweinwyr sydd wedi'u hethol a'u penodi yn negodi â'i gilydd am eu rolau yn gynnar yn y berthynas er mwyn cynnal cyd-ddealltwriaeth o rolau ac amcanion | Yn ogystal â swydd-ddisgrifiadau a'r cod ymddygiad, cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân, y Dirprwy Gadeirydd a'r Dirprwy Brif Swyddog Tân er mwyn cynnal dealltwriaeth gyffredin o rolau ac amcanion. | | 1 |
| Cyhoeddi datganiad sy'n pennu'r mathau o benderfyniadau sy'n cael eu dirprwyo a'r rhai sy'n cael eu cadw ar gyfer proses benderfynu ar y cyd yn y corff llywodraethol | Adolygu cynllun dirprwyaethau o leiaf unwaith y flwyddyn yng ngoleuni newidiadau cyfreithiol a sefydliadol<br><br>Adolygu rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol yn rheolaidd | | 1 |
| Sicrhau bod gan gadeirydd yr ATA a'r Prif Swyddog Tân rolau arweinyddol clir a phendant o fewn y strwythur, lle mae'r Prif Swyddog Tân yn arwain yr awdurdod i weithredu strategaeth a rheoli'r modd y darperir gwasanaethau ac allbynnau eraill a osodir gan yr aelodau, ac mae'r ddau'n darparu ffordd o wirio awdurdod y naill a'r llall | Datganiad clir o rolau a chyfrifoldebau'r naill a'r llall, a sut byddant yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol<br><br>Mae swydd-ddisgrifiadau ar gael ar gyfer y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd, yr Aelodau a'r PST. | | 1 |

| **Is-egwyddorion ac ymddygiadau a gweithredoedd sy'n dangos llywodraethu da ar waith (Sut rydym wedi cyflawni'r egwyddorion)** | **Enghreifftiau o systemau, prosesau, dogfennau a thystiolaeth arall sy'n dangos cydymffurfiaeth (cael sicrwydd)** | **Gwelliannau y gellir eu gwneud ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol.** | **Sgôr hunan-asesiad**<br>**0 Tystiolaeth neu systemau/prosesau annigonol**<br>**1 Digonol**<br>**2 Arfer orau** |
|---|---|---|---|
| Datblygu galluoedd yr aelodau a'r uwch reolwyr er mwyn sicrhau cyd-arweinyddiaeth effeithiol ac i alluogi'r sefydliad i ymateb yn llwyddiannus i ofynion cyfreithiol a pholisïau sy'n newid, yn ogystal â newidiadau economaidd, gwleidyddol ac amgylcheddol a risgiau drwy:<br><br>• sicrhau bod aelodau a staff yn cael mynediad at sesiynau cynefino priodol wedi'u teilwra i'w rôl, a bod hyfforddiant a datblygiad parhaus yn cyfateb i ofynion yr unigolyn a'r sefydliad ar gael ac yn cael eu hannog<br><br>• sicrhau bod gan aelodau a swyddogion y sgiliau priodol, yr wybodaeth, yr adnoddau a'r cymorth i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau, a sicrhau eu bod yn gallu diweddaru eu gwybodaeth yn barhaus<br><br>• sicrhau datblygiad ar lefel bersonol, lefel y sefydliad a ledled y system drwy rannu'r hyn a ddysgir, gan gynnwys gwersi a ddysgir o ganlyniad i wendidau llywodraethol mewnol ac allanol | Mynediad at gyrsiau/briffiadau gwybodaeth am ddeddfwriaeth newydd<br><br>Strategaeth datblygu aelodau<br>• Sesiynau cynefino i aelodau a rhaglen hyfforddiant a datblygiad parhaus<br><br>Yn ystod cyfarfodydd yr ATA, mae'r aelodau'n gallu: craffu a herio. Mae'r PST a'r aelodau'n:<br>• cydnabod pryd mae angen cyngor arbenigol allanol<br>• hybu ymddiriedaeth<br>• gweithio mewn partneriaeth<br>• arwain y sefydliad<br>• gweithredu fel arweinydd cymunedol<br>• defnyddio systemau effeithlon a thechnoleg i roi cymorth effeithiol<br><br>Trefniadau cynllunio ar gyfer olyniaeth | | 1 |
| Sicrhau bod strwythurau i annog cyfranogiad y cyhoedd | Strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu | | 2 |

| **Is-egwyddorion ac ymddygiadau a gweithredoedd sy’n dangos llywodraethu da ar waith (Sut rydym wedi cyflawni’r egwyddorion)** | **Enghreifftiau o systemau, prosesau, dogfennau a thystiolaeth arall sy’n dangos cydymffurfiaeth (cael sicrwydd)** | **Gwelliannau y gellir eu gwneud ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol.** | **Sgôr hunan-asesiad**<br>**0 Tystiolaeth neu systemau/prosesau annigonol**<br>**1 Digonol**<br>**2 Arfer orau** |
|---|---|---|---|
| Cymryd camau i ystyried pa mor effeithiol yw’r arweinyddiaeth ei hun, a sicrhau bod arweinwyr yn agored i adborth adeiladol gan adolygiad cymheiriaid ac arolygiadau | Cynllun hyfforddi a datblygu<br><br>Cynlluniau datblygu staff wedi’u cysylltu â gwerthusiadau<br><br>Gweithredu polisïau priodol ar gyfer adnoddau dynol, a sicrhau eu bod yn gweithio’n effeithiol<br><br>Cynnal adolygiadau cymheiriaid gan awdurdodau tân ac achub eraill yng Nghymru a’r Ymgynghorydd Tân. | | **2** |
| Sicrhau bod trefniadau ar gyfer cynnal iechyd a lles y gweithlu, a chefnogi unigolion i gynnal eu lles corfforol a meddyliol eu hunain | Polisïau adnoddau dynol<br><br>Mynediad at Care First<br><br>Cynllun Iechyd, Diogelwch a Llesiant Hefyd, mae Grŵp Iechyd, Diogelwch a Llesiant wedi cael ei sefydlu. | | **2** |

| **Is-egwyddorion ac ymddygiadau a gweithredoedd sy'n dangos llywodraethu da ar waith (Sut rydym wedi cyflawni'r egwyddorion)** | **Enghreifftiau o systemau, prosesau, dogfennau a thystiolaeth arall sy'n dangos cydymffurfiaeth (cael sicrwydd)** | **Gwelliannau y gellir eu gwneud ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol.** | **Sgôr hunan-asesiad**<br>**0 Tystiolaeth neu systemau/prosesau annigonol**<br>**1 Digonol**<br>**2 Arfer orau** |
|---|---|---|---|

**Egwyddor 6 Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth gref o arian cyhoeddus**

Rhaid i sefydliadau'r sector cyhoeddus sicrhau bod y strwythurau llywodraethu yn cael eu gweithredu, a'u bod yn gallu cynnal system effeithiol i reoli perfformiad sy'n hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a gynlluniwyd mewn modd effeithiol ac effeithlon. Mae rheoli risg a rheolaeth fewnol yn bwysig, ac maent yn rhannau annatod o system rheoli perfformiad ac yn hanfodol er mwyn sicrhau canlyniadau. Dylid ystyried risgiau, ac ymdrin â nhw fel rhan o'r holl weithgareddau penderfynu.

Mae system gref ar gyfer rheolaeth ariannol yn hanfodol er mwyn gweithredu polisïau a sicrhau'r canlyniadau a fwriedir, oherwydd bydd yn gorfodi disgyblaeth ariannol, yn dyrannu adnoddau'n strategol, yn darparu gwasanaethau effeithlon, ac yn sicrhau atebolrwydd.
Mae'n hanfodol hefyd fod diwylliant a strwythur ar gael ar gyfer craffu, fel rhan hanfodol o wneud penderfyniadau atebol, llunio polisïau ac adolygu. Mae diwylliant gweithio cadarnhaol sy'n derbyn, yn hyrwyddo ac yn annog her adeiladol yn hanfodol ar gyfer craffu'n llwyddiannus a chyflawni'n llwyddiannus. Yn bwysig, nid rhywbeth sy'n digwydd fel mater o drefn yw'r diwylliant hwn, rhaid cael ymrwymiad cyhoeddus parhaus gan y rhai sydd mewn awdurdod.

| **Is-egwyddorion ac ymddygiadau a gweithredoedd sy'n dangos llywodraethu da ar waith (Sut rydym wedi cyflawni'r egwyddorion)** | **Enghreifftiau o systemau, prosesau, dogfennau a thystiolaeth arall sy'n dangos cydymffurfiaeth (cael sicrwydd)** | **Gwelliannau y gellir eu gwneud ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol.** | **Sgôr hunan-asesiad**<br>**0 Tystiolaeth neu systemau/prosesau annigonol**<br>**1 Digonol**<br>**2 Arfer orau** |
|---|---|---|---|
| **Rheoli risg**<br>Cydnabod bod rheoli risg yn rhan annatod o bob gweithgaredd a rhaid ystyried hynny ymhob agwedd ar y gwaith o wneud penderfyniadau | Enghreifftiau o'r rhain yw'r:<br>• Strategaeth rheoli risg<br>• Cynlluniau Parhad Busnes<br>• Cofrestr Risgiau Corfforaethol | | 2 |
| Gweithredu trefniadau cadarn ac integredig ar gyfer rheoli risg, a sicrhau bod y rheini'n gweithio'n effeithiol | Strategaeth/polisi rheoli risg yn cael eu cymeradwyo'n ffurfiol, eu mabwysiadu, eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd | | 1 |
| Sicrhau bod y cyfrifoldebau ar gyfer rheoli risgiau unigol wedi cael eu dyrannu'n glir | Strategaeth rheoli risg | | 1 |

| **Is-egwyddorion ac ymddygiadau a gweithredoedd sy'n dangos llywodraethu da ar waith (Sut rydym wedi cyflawni'r egwyddorion)** | **Enghreifftiau o systemau, prosesau, dogfennau a thystiolaeth arall sy'n dangos cydymffurfiaeth (cael sicrwydd)** | **Gwelliannau y gellir eu gwneud ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol.** | **Sgôr hunan-asesiad**<br>**0 Tystiolaeth neu systemau/prosesau annigonol**<br>**1 Digonol**<br>**2 Arfer orau** |
|---|---|---|---|
| **Rheoli perfformiad**<br>Monitro'n effeithiol y modd y darperir gwasanaethau, gan gynnwys cynllunio, manylebu, gweithrediad, ac adolygiad annibynnol ar ôl eu rhoi ar waith | Map perfformiad yn dangos bod gan yr holl weithgareddau fesurau perfformiad<br><br>LearnPro a PDRPro<br><br>Gwybodaeth meincnodi<br><br>Perfformiad costau<br><br>Calendr â dyddiadau ar gyfer cyflwyno, cyhoeddi a dosbarthu adroddiadau amserol sy'n cael eu dilyn | Byddai'n ddymunol gwella'r adolygiad o brosiectau ar ôl eu rhoi ar waith. | 1 |
| Gwneud penderfyniadau ar sail dadansoddiad a chyngor perthnasol, clir a gwrthrychol gan ddangos y goblygiadau a'r risgiau sy'n annatod yn sefyllfa ac agwedd ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol y sefydliad | Trafodaeth rhwng aelodau a swyddogion am anghenion gwybodaeth ymysg aelodau er mwyn cefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau<br><br>Cyhoeddi agendâu, adroddiadau a chofnodion cyfarfodydd<br><br>Cytundeb ar yr wybodaeth y bydd ei hangen a'r amserlenni | | 2 |
| Sicrhau bod swyddogaeth graffu neu oruchwylio effeithiol ar gael i annog her adeiladol a thrafodaeth am bolisïau ac amcanion cyn, yn ystod ac ar ôl gwneud penderfyniadau, a thrwy hynny wella perfformiad y sefydliad ac unrhyw sefydliad y mae'n gyfrifol amdano | Sefydlwyd rôl a chyfrifoldeb ar gyfer craffu, ac mae'n glir<br>• Agenda a chofnodion ar gyfer cyfarfodydd craffu<br>• Tystiolaeth o welliannau o ganlyniad i graffu<br>• Cylch gorchwyl<br>• Hyfforddiant i aelodau<br>• Aelodaeth<br>• Mae byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn datblygu mecanwaith effeithiol ar gyfer | | 1 |

| **Is-egwyddorion ac ymddygiadau a gweithredoedd sy'n dangos llywodraethu da ar waith (Sut rydym wedi cyflawni'r egwyddorion)** | **Enghreifftiau o systemau, prosesau, dogfennau a thystiolaeth arall sy'n dangos cydymffurfiaeth (cael sicrwydd)** | **Gwelliannau y gellir eu gwneud ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol.** | **Sgôr hunan-asesiad**<br>**0 Tystiolaeth neu systemau/prosesau annigonol**<br>**1 Digonol**<br>**2 Arfer orau** |
|---|---|---|---|
| | craffu | | |
| Darparu adroddiadau rheolaidd i'r aelodau a'r uwch reolwyr ar gynlluniau cyflenwi gwasanaethau ac ynghylch cynnydd o ran sicrhau canlyniadau | Calendr â dyddiadau ar gyfer cyflwyno, cyhoeddi a dosbarthu adroddiadau amserol sy'n cael eu dilyn.<br>Cyflwynir adroddiadau rheolaidd i'r Panel Gweithredol, y Pwyllgor Archwilio a'r Awdurdod Tân ac Achub. | | 2 |
| Sicrhau bod cysondeb rhwng camau manylebu (megis cyllidebau) ac adrodd ar ôl rhoi ar waith (e.e. datganiadau ariannol) | Safonau ariannol, cyfarwyddyd<br><br>Rheoliadau ariannol a rheolau sefydlog | | 1 |
| **Rheolaeth fewnol gadarn**<br>Cysoni'r strategaeth rheoli risg a'r polisïau ar reolaeth fewnol gyda chyflawni amcanion | Strategaeth rheoli risg<br>• Cynllun archwilio<br>• Adroddiadau archwilio | | 2 |
| Gwerthuso a monitro'r gwaith rheoli risg a rheolaeth fewnol yn rheolaidd | Mae strategaeth/polisi rheoli risg wedi cael ei gymeradwyo'n ffurfiol, ac mae'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd. | | 2 |
| Sicrhau bod trefniadau gwrth-dwyll a llygredd | Cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar Reoli'r Risg o Dwyll a Llygredd (*Code of Practice on Managing the Risk of Fraud and Corruption*) (CIPFA, 2014)<br><br>Seilwaith TG | | 1 |
| Sicrhau bod yr archwilydd mewnol yn rhoi sicrwydd ychwanegol ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw'r fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth | Datganiad llywodraethu blynyddol<br><br>Mae gwasanaeth archwilio mewnol effeithiol yn cael adnoddau ac yn cael ei gynnal | | 1 |

| Is-egwyddorion ac ymddygiadau a gweithredoedd sy'n dangos llywodraethu da ar waith (Sut rydym wedi cyflawni'r egwyddorion) | Enghreifftiau o systemau, prosesau, dogfennau a thystiolaeth arall sy'n dangos cydymffurfiaeth (cael sicrwydd) | Gwelliannau y gellir eu gwneud ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol. | Sgôr hunan-asesiad<br>0 Tystiolaeth neu systemau/prosesau annigonol<br>1 Digonol<br>2 Arfer orau |
|---|---|---|---|
| Sicrhau bod pwyllgor archwilio neu grŵp neu swyddogaeth cyfatebol, sy'n annibynnol ar y weithrediaeth, yn atebol i'r corff llywodraethol: yn darparu ffynhonnell arall o sicrwydd effeithiol am y trefniadau ar gyfer rheoli risg ac yn cynnal amgylchedd reolaethol effeithiol i sicrhau bod ei argymhellion yn cael eu clywed a'u dilyn | Mae'r pwyllgor archwilio'n cydymffurfio â'r arferion gorau – gweler *Audit Committees: Practical Guidance for Local Authorities and Police* (CIPFA, 2013)<br>• Cylch gorchwyl<br>• Aelodaeth<br>• Hyfforddiant | | 2 |
| **Rheoli data**<br>Sicrhau bod trefniadau effeithiol ar gyfer casglu, storio, defnyddio a rhannu data'n effeithiol, gan gynnwys prosesau ar gyfer diogelu data personol | Polisi cadw dogfennau<br>Fframwaith a gweithdrefnau ar gyfer rheoli data<br><br>Modiwlau LearnPro ar gyfer yr holl weithwyr<br>Swyddog dynodedig ar gyfer diogelu data<br><br>Polisïau a gweithdrefnau diogelu data<br><br>Polisi cadw dogfennau | | 1 |
| Sicrhau bod trefniadau effeithiol ar gael ac yn gweithredu'n effeithiol wrth rannau data â chyrff eraill | Cytundeb rhannu data<br>• Cofrestr rhannu data<br>• Cytundebau prosesau data sy'n cydymffurfio â WASPI | | 1 |
| Mynd ati'n rheolaidd i adolygu ac archwilio ansawdd a chywirdeb data sy'n cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau ac i fonitro perfformiad | Gweithdrefnau ac adroddiadau'n ymwneud ag ansawdd data<br>• Gweithdrefnau gwirio data | | 1 |

| **Is-egwyddorion ac ymddygiadau a gweithredoedd sy'n dangos llywodraethu da ar waith (Sut rydym wedi cyflawni'r egwyddorion)** | **Enghreifftiau o systemau, prosesau, dogfennau a thystiolaeth arall sy'n dangos cydymffurfiaeth (cael sicrwydd)** | **Gwelliannau y gellir eu gwneud ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol.** | **Sgôr hunan-asesiad**<br>**0 Tystiolaeth neu systemau/prosesau annigonol**<br>**1 Digonol**<br>**2 Arfer orau** |
|---|---|---|---|
| **Rheolaeth gref o arian cyhoeddus**<br>Sicrhau bod rheolaeth ariannol yn cefnogi'r gwaith o sicrhau canlyniadau yn y tymor hir a pherfformiad ariannol a gweithredol yn y tymor byr | Mae rheolaeth ariannol yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a newid trawsffurfiadol, yn ogystal â sicrhau stiwardiaeth dda. | | 2 |
| Sicrhau bod rheolaeth ariannol yn cael ei integreiddio ar bob lefel o'r gwaith cynllunio a rheoli, gan gynnwys rheolaeth o risgiau ariannol a rheolaethau | Adroddiadau monitro'r gyllideb yn rheolaidd i'r Awdurdod Tân ac Achub, gyda dadansoddiad manwl o amrywiadau er mwyn i'r aelodau ddeall y risgiau a'r rheolaethau ariannol. | | 2 |

| **Egwyddor 7 Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio er mwyn darparu atebolrwydd effeithiol**<br>Mae atebolrwydd yn golygu sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac yn darparu gwasanaethau yn atebol amdanynt. Mae atebolrwydd effeithiol yn golygu nid yn unig adrodd ynghylch y camau a gymerwyd, ond hefyd sicrhau bod rhanddeiliaid yn gallu deall ac ymateb i gynlluniau'r sefydliad a chyflawni ei weithgareddau mewn modd tryloyw. Mae archwilio allanol a mewnol yn cyfrannu at atebolrwydd effeithiol. | | | |
|---|---|---|---|
| **Is-egwyddorion ac ymddygiadau a gweithredoedd sy'n dangos llywodraethu da ar waith (Sut rydym wedi cyflawni'r egwyddorion)** | **Enghreifftiau o systemau, prosesau, dogfennau a thystiolaeth arall sy'n dangos cydymffurfiaeth (cael sicrwydd)** | **Gwelliannau y gellir eu gwneud ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol.** | **Sgôr hunan-asesiad**<br>**0 Tystiolaeth neu systemau/prosesau annigonol**<br>**1 Digonol**<br>**2 Arfer orau** |
| **Gweithredu arferion da o ran tryloywder**<br>Ysgrifennu a chyfathrebu adroddiadau ar gyfer cyhoedd a rhanddeiliaid eraill mewn arddull ddealladwy sy'n briodol i'r gynulleidfa dan sylw, a sicrhau eu bod yn hawdd i'w cael a'u cwestiynu | Cymerir gofal i sicrhau bod pob adroddiad ar gyfer y cyhoedd mewn arddull ddealladwy a'u bod ar gael yn llawn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r dogfennau hyn ar gael ar y wefan. | | 1 |
| Cael cydbwysedd rhwng darparu'r lefel gywir o wybodaeth i fodloni gofynion tryloywder a gwella craffu cyhoeddus heb fod yn rhy drwm i'w darparu ac i ddefnyddwyr ei deall | Cymerir gofal i sicrhau bod y Cynllun Cyfunol ar gyfer Gwella a Llesiant a'r adroddiadau 'Sut y gwnaethom ni yn..? yn ddealladwy ac ar gael yn hawdd. | | 2 |
| **Gweithredu arferion da o ran adrodd**<br>Adrodd o leiaf unwaith y flwyddyn ar berfformiad, gwerth am arian a stiwardiaeth ei adnoddau | Asesiad o berfformiad yr Awdurdod - 'Sut y gwnaethom ni yn..?<br><br>Datganiadau ariannol blynyddol | | 2 |
| Sicrhau bod yr aelodau a'r uwch reolwyr yn perchnogi ar y canlyniadau | Cymeradwyaethau priodol | | 1 |

| **Is-egwyddorion ac ymddygiadau a gweithredoedd sy'n dangos llywodraethu da ar waith (Sut rydym wedi cyflawni'r egwyddorion)** | **Enghreifftiau o systemau, prosesau, dogfennau a thystiolaeth arall sy'n dangos cydymffurfiaeth (cael sicrwydd)** | **Gwelliannau y gellir eu gwneud ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol.** | **Sgôr hunan-asesiad**<br>**0 Tystiolaeth neu systemau/prosesau annigonol**<br>**1 Digonol**<br>**2 Arfer orau** |
|---|---|---|---|
| Sicrhau trefniadau cadarn ar gyfer asesu i ba raddau y mae'r egwyddorion sydd yn y Fframwaith wedi cael eu dilyn, a chyhoeddi'r canlyniadau ar yr asesiad hwn, gan gynnwys cynllun gweithredu ar gyfer gwella a thystiolaeth i ddangos llywodraethu da (datganiad llywodraethu blynyddol) | Datganiad llywodraethu blynyddol | | 2 |
| Sicrhau bod y Fframwaith yn cael ei gymhwyso ar gyfer sefydliadau sy'n caei rheoli ar y cyd neu gyd-wasanaethau, fel y bo'n briodol | Datganiad llywodraethu blynyddol | | |
| Sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad a roddir gyda'r datganiadau ariannol yn cael ei pharatoi mewn modd cyson ac amserol, a bod y datganiadau'n caniatáu cymharu â sefydliadau tebyg | Datblygwyd y datganiad o gyfrifon i fod yn gyson â'r ddau ATA arall yng Nghymru er mwyn gallu cymharu'n uniongyrchol. | | 2 |
| **Sicrwydd ac atebolrwydd effeithiol**<br>Sicrhau bod argymhellion gan archwiliad allanol ar gyfer camau i gywiro yn cael eu cyflawni | Mae argymhellion wedi bod yn sail i welliant cadarnhaol | | 2 |
| Sicrhau bod gwasanaeth archwilio mewnol, sydd â mynediad uniongyrchol at yr aelodau, yn rhoi sicrwydd am y trefniadau llywodraethu ac mae argymhellion yn cael eu dilyn | Cydymffurfiaeth â Datganiad CIPFA ar Rôl Pennaeth Archwilio Mewnol (*Statement on the Role of the Head of Internal Audit*) (2010)<br><br>Cydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus | | 2 |

| **Is-egwyddorion ac ymddygiadau a gweithredoedd sy'n dangos llywodraethu da ar waith (Sut rydym wedi cyflawni'r egwyddorion)** | **Enghreifftiau o systemau, prosesau, dogfennau a thystiolaeth arall sy'n dangos cydymffurfiaeth (cael sicrwydd)** | **Gwelliannau y gellir eu gwneud ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol.** | **Sgôr hunan-asesiad**<br>**0 Tystiolaeth neu systemau/prosesau annigonol**<br>**1 Digonol**<br>**2 Arfer orau** |
|---|---|---|---|
| Croesawu her gan gymheiriaid, adolygiadau ac arolygiadau gan gyrff rheoleiddiol a gweithredu argymhellion | Argymhellion yn sail i welliant cadarnhaol | | 2 |
| Cael sicrwydd am y risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau drwy drydydd partïon, a chael tystiolaeth o hyn yn y datganiad llywodraethu blynyddol | Datganiad llywodraethu blynyddol | | 1 |
| Sicrhau, wrth weithio mewn partneriaeth, fod trefniadau ar gyfer atebolrwydd yn glir a bod yr angen am atebolrwydd ehangach i'r cyhoedd wedi cael ei gydnabod a'i ddiwallu | Cylch gorchwyl a chynlluniau llesiant byrddau gwasanaethau cyhoeddus<br><br>Byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn ymwneud â gwaith craffu | | 2 |

**5.0 Adolygu Effeithiolrwydd**

5.1 Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am gynnal, o leiaf unwaith y flwyddyn, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Yn sail i'r adolygiad o effeithiolrwydd mae gwaith y Grŵp Gweithredol ac uwch swyddogion eraill o fewn yr Awdurdod, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, adroddiad blynyddol yr Archwiliad Mewnol, a hefyd y sylwadau a wneir gan archwilwyr allanol ac asiantaethau arolygol eraill ac adolygiadau eraill a gynhelir

5.2.1 Mae datganiad o sicrwydd wedi ei drafod a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio ynglŷn â pha mor effeithiol yw'r trefniadau llywodraethu y mae'n gyfrifol amdanynt, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Mae'r datganiad o sicrwydd yn ymdrin â'r holl egwyddorion sydd yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod. Mae'r datganiad o sicrwydd yn datgelu nad oes unrhyw feysydd gwan yn nhrefniadau llywodraethu corfforaethol yr Awdurdod; roedd y trefniadau ymhob achos yn ddigonol o leiaf, ac yn y mwyafrif o feysydd roeddent yn dda.

5.2.2 Wrth gynnal ac adolygu pa mor effeithiol yw trefniadau llywodraethu'r Awdurdod, rhoddwyd ystyriaeth i'r canlynol:-

i) mae'r swyddogaeth Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiadau rheolaidd o'r systemau a'r rheolaethau ariannol, a hynny er mwyn darparu sicrwydd i'r Awdurdod drwy ei Bwyllgor Archwilio;

ii) Mae Swyddfa Archwilio Cymru a KPMG yn ystyried bod yr amgylcheddau rheoli cyffredinol yn rhai cadarn, a bod systemau cadarn o reolaeth ariannol a threfniadau rheoli ariannol ar waith;

iii) swyddogaeth Archwilio Mewnol, y mae ei waith yn ystyried y risgiau a ganfuwyd drwy archwiliadau rheolaidd o'r systemau mawr, niferoedd staff a phrosiectau pwysig yn unol â'r cynllun archwilio mewnol blynyddol, ac sy'n cynnwys gwaith dilynol i sicrhau bod y prif swyddogion yn gweithredu argymhellion y cytunwyd arnynt;

iv) yr asesiad blynyddol o'r gwaith Archwilio Mewnol gan archwilwyr allanol yr Awdurdod, a gasglodd bod yr Archwilio Mewnol yn cydymffurfio â Chod Ymarfer CIPFA ar Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig 2006;

v) gwaith pwyllgorau'r Awdurdod;

vi) barn ac argymhellion archwilwyr allanol yr Awdurdod ac asiantaethau arolygol ac adolygol eraill;

vii) monitro perfformiad yn rheolaidd yn erbyn y **Cynllun Cyfunol ar gyfer Gwella a Llesiant** a chynlluniau gwasanaeth a thargedau allweddol, ac adrodd yn ei gylch i aelodau'r Awdurdod.

## 6 Argymhellion ar gyfer Gwella - Cynllun Gweithredu ar gyfer Llywodraethu Blynyddol

6.1.1 O ran y 'materion rheoli arwyddocaol' sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad ar Reolaeth Fewnol am y flwyddyn ariannol flaenorol (2015/16), dyma'r cynnydd yn 2016/17:

| Mater | Cam Gweithredu | Canlyniad | Swyddog Arweiniol | Dyddiad Cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| Mae bwlch yn y gyllideb, fel y nodir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig | Defnyddio proses effeithiol ar gyfer rheoli cyllidebau a monitro a sicrhau arbedion a ganfuwyd | Alldro 16/17 yn unol â'r gyllideb a'r rhagolygon. Cynllun gweithredu heb gael ei benderfynu eto gan yr ATA er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch yn y gyllideb ar gyfer y blynyddoedd i ddod. | Dirprwy Brif Swyddog Tân | Yr Awdurdod Tân ac Achub newydd ar ôl Mehefin 2017 i benderfynu |
| Angen cydweithio gwell rhwng partneriaid yn y Gwasanaethau Brys. | Lleihau'r risg o anaf a marwolaeth oherwydd tân drwy sicrhau cydweithio gwell rhwng partneriaid yn y Gwasanaethau Brys drwy rannu llwyfannau technoleg cyffredin i rannu gwybodaeth (Frequentis LifeX i ddechrau) er mwyn cyfnewid gwybodaeth yn fwy amserol er mwyn rheoli adnoddau'n wella i ddarparu ymateb mwy effeithiol i gymunedau Gogledd Cymru. | Mae GTAGC wedi symud ei Ystafell Reoli i becyn meddalwedd newydd a fydd yn galluogi GTAGC ganolbwyntio ar ddatblygu llwyfan cyfathrebu ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru yn hydref 2017. | Pennaeth yr Ystafell Reoli | Mawrth 2018 |
| Gofyniad i wella'r gwaith rheoli prosiectau er mwyn gwella'r gwaith o gyflawni amcanion y Gwasanaeth. | WASPI – creu cofrestr ganolog o Brotocolau Rhannu Gwybodaeth a Chytundebau Datgelu Data. | Defnyddiwyd WASPI fel dull i wella'r broses o rannu data rhwng partneriaid. Hefyd, rhoddwyd system rheoli prosiectau sy'n atebol i'r | DBST | Cwblhawyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwella Rheolaeth Rhaglenni | | Grŵp Gweithedol fel y bwrdd rhaglen cyffredinol ar gyfer y rhaglen drawnewid. | | |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 – Sicrhau bod trefniadau priodol ar gyfer dyfodiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. | Dehongli'r argymhellion a gwneud argymhellion. | Cwblhawyd hyn yn llwyddiannus, a bu'n sail i'n gwaith ar y byrddau gwasanaethau cyhoeddus. | Rheolwr Cynllunio Corfforaethol | Cwblhawyd |
| Gwella gwybodaeth, ymddygiad yn y sefydliad, o ran Iechyd, Diogelwch a Llesiant. | Datblygu a chyhoeddi dogfennau cyfarwyddyd a chynllun Iechyd a Diogelwch ar y fewnrwyd. | Cafodd hyn ei wneud drwy Grŵp Iechyd, Diogelwch a Llesiant, ac mae nawr yn cael ei ystyried yn fusnes fel arfer. | Uwch Reolwr Safonau Proffesiynol a Gwasanaeth | Cwblhawyd |

6.2 Mae gan yr Awdurdod reolaethau a llywodraethiant da, ond nid yw'n hunanfodlon. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn, yn ogystal ag archwiliad diweddar a gynhaliwyd ar drefniadau llywodraethu'r Awdurdod, wedi canfod meysydd lle mae angen gwneud gwelliannau pellach.

**6.3 Cynllun Gweithredu Datganiad Llywodraeth Blynyddol 2016/17 – Camau Newydd ar gyfer 2017/18:**

| Amcan | Nod | Canlyniad | Pwy sy'n gyfrifol | Dyddiad y disgwylir cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu gwybodaeth y weinyddiaeth newydd | Aelodau'r Awdurdod i gael eu briffio'n llawn ar y materion perthnasol. Swyddogion ac aelodau i fod yn ymwybodol o'r protocol aelodau/swyddogion ac i gydymffurfio â'r protocol. Bydd sesiwn gynefino lawn i'r aelodau – caiff ei ailadrodd fel y bo'r angen a bydd disgwyl i'r aelodau fynychu | Trosglwyddo'r arweinyddiaeth yn effeithiol o'r hen weinyddiaeth i'r weinyddiaeth newydd | Prif Swyddog Tân, gyda chymorth y Clerc a'r Trysorydd | Medi 2017 |
| Posibilrwydd o nifer sylweddol o aelodau newydd | Darparu hyfforddiant effeithiol i'r holl aelodau; egluro swyddi a chyfrifoldebau | Fel uchod | Prif Swyddog Tân | O Fedi 2017 hyd at Ebrill 2022 |
| Adolygu diwyg papurau'r Awdurdod | Gwella eglurder a phroses y polisi asesu effaith | Cyflwyniad gwella a phapurau cyson ar gyfer yr Awdurdod | Rheolwr Cynllunio Corfforaethol | Mawrth 2018 |
| Gwella'r modd y mae prosiectau'n cael eu hadolygu ar ôl eu rhoi ar waith | Gwella dysgu | Cyflawni prosiectau'n wella | DBST | Mawrth 2018 |

## 7.0 Crynodeb o Sicrwydd

7.1 Llywodraethu da yw sylfaen y gwaith o ddarparu gwasanaethau o safon sy'n diwallu anghenion yr holl randdeiliaid, ac mae'n hanfodol er mwyn dangos bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n dda. Yn seiliedig ar yr adolygiad, yr asesiad a'r gwaith monitro parhaus a wnaed yn ystod 2016/17, rydym o'r farn fod trefniadau llywodraethu da yn eu lle, bod y systemau allweddol yn gweithredu'n iawn ac nad oes unrhyw dystiolaeth o wendidau sylfaenol mewn rheolaeth. Fodd bynnag, ni all yr un system reolaeth ddarparu sicrwydd absoliwt yn erbyn camddatgan na cholled. Yn seiliedig ar y gwahanol sicrwydd a roddwyd, bwriad y datganiad hwn yw rhoi sicrwydd rhesymol fod trefniadau llywodraethu corfforaethol boddhaol yn eu lle a'u bod yn gweithio'n effeithiol.

7.2.1 Dros y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion uchod i wella rhagor ar ein trefniadau llywodraethu. Rydym wedi ein bodloni y bydd y camau hyn yn ymdrin â'r angen i gael y gwelliannau a nodwyd yn ein hadolygiad o effeithiolrwydd, a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

**Llofnod:**
**(Prif Swyddog Tân)** **2017**

**Llofnod:**
**(Cadeirydd ATAGC)** **2017**